# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 7 Tachwedd 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*


# Gŵyl Eirin Dinbych




Mr Eirin gyda Band Cambria



Tanwen a Gwanwyn yn cyfarfod Mr Urdd



Tomos Wilkinson Spittle a Betrys Owens enillwyr dylunio cerdyn



Geraint Lovgreen Martha Cordiner (Hanes tudalen 4)




Fiona a Lynn Davies ar stondin Eirin Dinbych




Dafydd a stondin cigydd teuluol J.H.Jones

# Popty Pwd

Hanes tudalen 14











Elsi Grace Lowe yn cael ei hwyneb wedi'i addurno



Mr Maer, Mr Eirin a Mr Urdd



Lynn a Rhys Thomas gyda Peter Jones ( Mr Eirin)



Yn y llun, chwith i'r dde, Dilys Hughes (Trysorydd), Norman Closs Parry, John E Hughes (Cadeirydd), Meinir Huws (Ysgrifennydd). (Hanes ar dudalen 4)

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Tachwedd Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd



Cefnogwyr Cymru neu'r 'Wal Goch' fel maen't yn hoffi cael eu hadnabod.



Stadiwm Al-Rayaan ble fydd Cymru yn chwarae yn erbyn Unol Daleithiau America

Rwyf yn ysgrifennu'r darn hwn ar noson Calan Gaeaf. Mae hi'n noson damp a thywyll; mae hi wir yn teimlo fel bod y gaeaf ar fin gwthio'i hun i mewn trwy'r drws a'i fod yma i aros. I fod yn gwbl onest, gyda'r dyddiau'n byrhau a'r nosweithiau'n hir, dwi'n hiraethu a dyheu am yr haf yn barod ! Ond, er bod y tymheredd yn disgyn rhywfaint, mae pethau ar fin poethi ym myd y pêl-droed y mis hwn. Ar yr 21ain o Dachwedd, bydd Cymru yn cystadlu yn ei gêm agoriadol yn erbyn Unol Daleithau America ym mhencampwriaeth Cwpan y Byd yn Qatar. Mae cael cystadlu yn y gystadleuaeth hon yn hynod o arwyddocaol i ni yma yng Nghymru, gan mai hwn yw'r tro cyntaf mewn 64 o flynyddoedd i Gymru gystadlu. Mae rhai yn cofio y llwyddiant ym 1958 pan gyrhaeddodd Cymru rownd yr wyth olaf yng Nghwpan y Byd yn Sweden, ond yn anffodus collwyd i Brasil yr adeg honno. Gyda lwc mi fydd hi'n stori wahanol i hogie Rob Page eleni. Mae ein taith i Qatar heb os wedi bod yn un heriol, wrth grafu buddugoliaeth yn erbyn Yr Wcrain yn mis Mehefin o un gôl. Mi lwyddwyd i gyrraedd Cwpan y Byd o drwch blewyn. Mae Qatar yn ein hwynebu y mis hwn, ond o adref neu yn fwy na thebyg y dafarn mi fyddaf yn cefnogi y tîm, fel nifer helaeth o gefnogwyr eraill. Mae'r costau uchel, hanes hawliau dynol diffygiol diweddar a llymder rheolau'r wlad wedi gwneud i nifer o gefnogwyr ail-feddwl am ymrwymo i'r daith yno. Yn wir, roedd cais llwyddiannus Qatar i gynnal Cwpan Y Byd wedi bod yn sypreis i nifer fawr o gefnogwyr ar draws y byd gan nad oedd gan y wlad fawr ddim hanes gyda'r gêm, Rasio camelod a hela gydag adar ysglyfaethus yn ol pob sôn yw eu chwaraeon traddodiadol nhw. Er hyn, mae pêl droed yn dod yn fwy a mwy poblogaidd yn Qatar, ac mae hi'n wlad gyfoethog sydd gyda'r adnoddau a photensial diddiwedd i ddatblygu'r gêm yn rhyngwladol. Er bod y ddadl hon yn parhau ym myd chwaraeon, dwi'n sicr bydd hi'n gystadleuaeth lwyddianus iawn. Yn ôl yng Nghymru, heb os bydd pawb yn bloeddio a chefnogi o'u cartrefi... neu'r dafarn, neu efallai o Tenerife? Cmon Cymru! Viva Gareth Bale!

Morgan Cordiner

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Tachwedd**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn**
**Tachwedd 18**

## BAG Y BIGWN

Rhoddion
Ann Jones £20

## Cylch Llenyddol Glannau Clwyd

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Norman Closs Stephens nos Lun, 3 Hydref, i roi cychwyn da i raglen 2022-23 y gymdeithas. Y pwnc dan sylw oedd y prifardd Einion 'Bardd y Triongl oedd ei Filltir Sgwâr', sef T Wilson Evans, y prifardd a chyn-lowr o ardal Mostyn, Sir y Fflint, a enillodd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1983 am ei awdl 'Yr Ynys'. Fe ysgrifennodd y campwaith dirdynnol hwn yn sgil colli ei unig ferch a phlentyn, Ennis. Mae'r gerdd yn cychwyn efo'r llinellau hiraethus trawiadol a chofiadwy….

Crindir yw Ynys Hiraeth
ni thyrr y wawr ar ei thraeth;
di-heulwen ydyw alaeth.

Bu afrifed golledion
ar hen swnd yr ynys hon,-
tir caled y tor-calon.

Gan i Norman Closs ac Einion fod yn ffrindiau agos am flynyddoedd maith, cafwyd noson hynod ddiddorol wrth iddo adrodd llu o straeon a hanesion personol am y bardd.
Mis nesaf, nos Lun 7 Tachwedd, ein siaradwr fydd Penri Jones o'r Parc, awdur 'Breuddwyd Syr Ifan'. Dyna yw teitl a phwnc ei gyflwyniad, sef hanes Urdd Gobaith Cymru ar ganmlwyddiant y mudiad. Croeso cynnes i bawb fel arfer – gellwch naill ai dalu £4 wrth y drws, neu fynychu'r pum darlith amrywiol a diddorol gweddill y tymor hwn am £15. Eto i ddod, yr Athro Deri Tomos, y cyn-AS Elfyn Llwyd, Dr Eiddwen Jones, yr awdur lleol, ac i gloi y tymor ddechrau Ebrill, Meinir Pierce Jones, enillydd Gwobr Daniel Owen eleni fydd yn trafod 'Sgrifennu Nofel Hanes'.
Cynhelir pob cyfarfod yng Nghapel Trefnant (LL16 5UG) am 7pm ar nos Lun cyntaf y mis, heblaw mis Mawrth.

## Y Gymdeithas Gymraeg

Ar Hydref 7fed, cynhaliwyd ein noson agoriadol ar gyfer tymor 2022/23, sef Noson yng Nghwmni Geraint Lovgreen yn festri Capel y Fron.
Daeth cynulleidfa dda a braf oedd croesawu nifer o wynebau newydd.
Cafwyd amrywiaeth o ganeuon a cherddi gan Geraint Lovgreen hefo pawb wedi gwirioneddol fwynhau y noson.
Cyflwynwyd a diolchwyd gan lywydd y Gymdeithas, Martha Cordiner.
Gwawr ac Andrew Cordiner oedd yng ngofal y baned.
Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Dachwedd am 7, eto yn festri'r Fron, sef noson hefo'r awdures Marlyn Samuel yn trafod ei nofelau.
Hefyd, cofiwch am "Noson Dathlu 50 Siop Clwyd" rwan ar Dachwedd 19 yn y Clwb Golff – pryd 3 chwrs ac adloniant am £20 y pen. Cysylltwch hefo'r ysgrifennydd am fwy o fanylion.



Geraint Lovgreen

## Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bore Sul, Medi 18fed, fe wnaeth Rhianwen Williams estyn croeso o ddiolch i Mrs Enid Davies, Eglwys Bach. Bore Sul, Medi 25ain, yr oedd yr oedfa yn Y Capel Mawr gyda'r Gweinidog Y Parch Andras Iago yn gwasanaethu ac ef hefyd oedd yn y Fron bore Sul, Hydref 2ail, yn pregethu.
Cyfarfodydd Diolchgarwch.
Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn bore dydd Iau Hydref 6ed gydag Aelwyn Lloyd, Ednyfed Williams a Gaynor Prew yn cymryd rhan. Yr oedd yr oedfa undebol eleni yn Y Capel Mawr a'r pregethwr gwadd oedd y Parch Morris P. Morris.
Hydref 16eg yr oedd yr oedfa gymun o dan ofal ein gweinidog ac yr oedd yr oedfa bore Sul, Hydref 23ain, yn Y Capel Mawr gyda Miss Debbie Roberts yn gwasanaethu. Yr organyddion yn ystod y mis oedd Iona Edwards ac Eiri Jones.

## Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws.

Cawsom ein harwain gyda gweddi, emyn a darlleniad gan Eiry. Pamela a wnaeth ddiolch i'r gwestai. Cafwyd paned a chlonc ar y diwedd wedi ei pharatoi gan Betty a Carolyn.
Unwaith eto cafwyd noson hynod o ddiddorol y tro hwn yng nghwmni Ann Jones Evans. Roedd Ann yn sôn am hanes y Porthmyn.
Dynion oedd y porthmyn oedd yn gyrru anifeiliaid dros bellter hir i'w gwerthu. Yn wir, yr oeddynt yn gyrru eu gwartheg o Sir Fôn i Lundain. Er mwyn osgoi talu tollau ar y ffordd, byddai'r porthmyn yn dilyn hen lwybrau dros y wlad. Rhyw ugain milltir oedd y pellter a drafeilwyd mewn diwrnod. Mae hanes yn cofnodi eu bod yn crwydro dros fynydd Hiraethog, fyny dyffryn Clwyd i Landegla ac ymlaen. Diddorol i ni oedd clywed eu bod yn aros mewn gwestai fel y Drovers yn y Rhewl. Cofiwch doedd dim Sat Nav na Google maps yr adeg hynny. Hefyd nid oeddynt yn teithio ar y Sul. Hawdd oedd adnabod y porthmyn gan eu bod yn gwisgo dillad unigryw. Roedd sawl stori ddiddorol gan Ann ac rwy'n siŵr y byddai pawb wedi hoffi cael clywed mwy o hanesion y Porthmyn.
**Carolyn**

TE YN Y GRUG
**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**01745 816576**

# Beth sydd yn bod ar lyfrau?

Mae'n debyg eich bod chi wedi gweld, clywed neu ddarllen ei bod hi'n o fain ar nifer o'n siopau llyfrau Cymraeg.

Fu'r cyfnod clo ddim o gymorth iddyn nhw gyda rhwystrau ar bob un ohonom o ran y math o siopau y gallem ni ymweld â nhw.

Dywedodd un perchennog nad ydy' ysgolion yn prynu llyfrau i'r un graddau bellach. Wel, does ryfedd fod hynny yn digwydd gyda sawl ysgol wedi cael 'madael â'u llyfrgelloedd a throi'r ystafelloedd hynny yn fan gweithio i'w disgyblion hynaf.

Clywais am un ysgol oedd wedi archebu gwerth cannoedd o bunnau o lyfrau, ac yna penderfynu nad oedden nhw am gael llyfrgell wedi'r cyfan. Gadawyd y llyfrau hynny yn daclus yn eu bocsus, ac mae'n debyg mai yno maen nhw o hyd.

Gwn, mi wn y gellwch ddarllen e-lyfrau a chasglu gwybodaeth ar y we, ond does yna ddim byd tebyg i lyfr-ei arogl, ei glawr a'i gyffyrddiad.

Mae hyd yn oed McDonald's yn cydnabod gwerth llyfrau i blant yn eu hymgyrch ddiweddaraf. Addysgwyr cibddall?

...........................................

Yn debyg i bapurau bro eraill mae'r **Bigwn** yn derbyn erthyglau a newyddion gan gyrff cyhoeddus, ac rydym yn ddiolchgar iawn amdanyn nhw.

Yr unig wendid ydy' tueddiad yn aml ar ran gohebwyr y cyrff hynny i fod braidd yn ddiog gan gynhyrchu cyfieithiad slafaidd o'r Saesneg.

Yna, yn y pegwn arall, fe gewch chi erthyglau sydd yn ymylu ar fod yn annealladwy i bobl gyffredin oherwydd Cymraeg clogyrnaidd a swyddoglyd.

Wel, fe gawsom enghraifft o hynny yn ein rhifyn diwethaf. Erthygl oedd hi am ferch ifanc a oedd wedi ennill gwobr genedlaethol, ac y mae hi'n haeddu canmoliaeth uchel am hynny.

Yn rhan ohoni roedd brawddeg a oedd yn cynnwys 51 o eiriau. Ia, pumdeg ac un o eiriau. Dyna'r hyn rydwi'n ei alw yn hyd braich o frawddeg.

Yn eu plith roedd y cymal hwn, "cynnig hyfforddiant cydnabyddedig wedi'i achredu i bobl sydd am weithio mewn sefydliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar gan drefnu lleoliadau gwaith i ymgeiswyr mewn Cylchoedd Meithrin, dosbarthiadau meithrin a meithrinfeydd ledled Cymru."

Whiw!

Ydach chi wedi deall hwnna ar y darlleniad cyntaf?

Wnes i ddim a dydwi ddim yn gweld bai ar neb o'r tîm golygyddol am adael y frawddeg fel roedd hi. Wedi'r cyfan mae angen procio ar rai cyrff cyhoeddus ar adegau, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Stan Lyall**




CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
ACCA
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
Cymraeg

## DEMENTIA: ADNODD NEWYDD AR GYFER EGLWYSI.

Mae dementia yn salwch cynyddol mewn cymdeithas. Prin fod yr un teulu heb brofiad ohono bellach. Yn ôl ystadegau'r Gymdeithas Alzheimer, mae dros 850,000 o bobl yng ngwledydd Prydain yn byw gyda dementia. Mae disgwyl i'r nifer hwn gynyddu i filiwn o fewn tair blynedd, a dwy filiwn erbyn 2050.

Yn wyneb y cynnydd brawychus hwn, mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd mewn 350 o gapeli ledled Cymru, wedi cyhoeddi *Heulwen Dan Gymylau,* sef ffeil swmpus i gynorthwyo ac annog eglwysi dementia-gyfeillgar (*Llun: Emlyn Davies yn cyhoeddi'r adnodd*). Mae'r ffeil yn adnodd newydd sy'n esbonio natur dementia, sut i fod yn 'ffrindiau dementia' yn y gymuned, sut i baratoi oedfaon ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a llu o awgrymiadau gwerthfawr eraill.

Bu gweithgor wrthi'n ddygn yn llunio'r ffeil, gyda chymorth ac awgrymiadau nifer o asiantaethau a sefydliadau sydd yn gweithio yn y maes arbennig hwn. Mae'r adnoddau yn tywys pobl trwy ddulliau o hunanasesu'r man cychwyn ar y daith. Ceir gymorth 'Patrymau ar gyfer oedfaon,' a gwerth 'Grym Cerddoriaeth' i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Hefyd, ceir cyfeiriadau a chysylltiadau mudiadau sy'n gweithredu yn y maes yn barod, a gwybodaeth ar sut i fod yn 'Ffrind Dementia' neu'n 'Hyrwyddwr Ffrindiau Dementia.'

Rhestrir adnoddau digidol a llyfrau print, ac mae'r cyfan wedi ei osod o fewn cyd-destun 'Seiliau Diwinyddol Eglwys Ddementia-gyfeillgar.' Mae'r fersiwn digidol yn hwyluso defnydd o'r cynnwys i unigolion neu ar gyfer oedfa, a chynhwysir nifer ychwanegol o esiamplau o oedfaon addas, gyda sleidiau Pwynt Pŵer.

Mae'r adnodd cyfan ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ewch i: www.annibynwyr.org/cy/page/eglwysi-dementia-gyfeillgar

Mae heulwen dan gymylau – a gwên
Yn gudd yn y dagrau;
Yna afiaith hen hafau
Ddaw'n ei dro i'r co' – cyn cau.

(John Phillips, i'w wraig Bethan)




Emlyn Davies ffeil Dementia

# Serenâd i'ch Swyno

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Noson o'r Opera ym mis Ebrill, derbyniwyd nifer fawr o geisiadau gan y gynulleidfa a fu yno am ail gyngerdd. Wel- newyddion da o lawenydd mawr! Mae'r cantorion talentog - Dafydd Jones, Dafydd Allen, Lisa Dafydd a Tesni Jones yn ymuno eto efo Côr Cytgan Clwyd i gadw cyngerdd arall - Serenâd y Nadolig ar Rhagfyr 9ed yng Nghapel Pendref Rhuthun am 7-30.

Mae'r pedwar ffrind ifanc yma'n hynod o brysur ar drothwy eu gyrfaoedd ym myd yr opera. Bu Dafydd Jones yn Awstria a Philadelphia yn canu dros yr haf, a chafodd ran flaenllaw yn opera'r Coleg Brenhinol yn Llundain. Mae Dafydd Allen wedi cychwyn perfformio gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac ar fin cystadlu yn y rownd derfynol i ddewis cynrychiolydd Cymraeg ar gyfer cystadleuaeth Canwr y Byd. Mae Lisa Dafydd, yn dilyn ei llwyddiant yn ennill y Rhuban Glas dan 25 yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni, yn cynnal cyngherddau ar hyd a lled Prydain ar hyn o bryd ac yn edrych ymlaen at gael perfformio yng Ngŵyl Gymraeg Gogledd America yn Lincoln, Nebraska y flwyddyn nesaf. Wedi graddio gyda dosbarth cyntaf o Goleg Brenhinol Cerdd y Gogledd ym Manceinion ddwy flynedd, yn ôl mae Tesni Jones wedi bod yn gweithio yn y coleg ers iddi raddio ac mae hi wrthi nawr yn ymgeisio ar gyfer colegau cerdd at y flwyddyn nesaf er mwyn dilyn cwrs meistr lleisiol.

Yn ymuno â nhw yn y cyngerdd bydd Côr Cytgan Clwyd dan arweiniad medrus Elen Mair Roberts a Morwen Blythin. Bu'r côr yn perfformio mewn opera newydd sbon gan Paul Mealor yng Ngŵyl Gerdd Gogledd Cymru yn Llanelwy yn ddiweddar a mawr oedd y canmol am eu canu hudolus a chelfydd

Arlwy o ganeuon Nadoligaidd a charolau fydd yn eich disgwyl ar y noson, ac mi fydd yr holl elw yn mynd tuag at elusen Ymchwil Cancr. Dewch yn llu i gefnogi.

Tocynnau ar werth yn Siop Elfair a Siop Clwyd





# Ysgol Glan Clwyd



Bu cyfarfod cyntaf o'r clwb marchogaeth yn Hafod, Trefnant a chyfle i'n disgyblion gael gwersi neidio.
Freya, Amelia, Martha, Esyllt, Lena, Alaw a Megan yng Nglwb Marchogaeth adran Addysg Gorfforol YGC

**Cyngor Ysgol**

Bu ein tîm gweithgar o brif swyddogion yn rhoi cyflwyniad i holl ddisgyblion yr ysgol yn ystod y gwasanaethau blwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth am waith y Cyngor a sut i ddod yn gynrychiolydd dosbarth. Dilynwyd hyn gan etholiad dosbarth a chyfle democrataidd i ethol dau gynrychiolydd. Ystyriwn waith y Cyngor yn allweddol er mwyn ymateb i lais y disgybl ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith yn ystod y flwyddyn.




Finlay, Elias, Awen, Elin, Siriol a Carwyn, Prif Ddisgyblion 2022-23 ac arweinwyr Cyngor yr Ysgol



Y Pennaeth a Mared bl9



Harriet ac Elsi, bl7

**Addysg Gorfforol**

Llongyfarchiadau i Lowri Bower bl12, Cadi Doran a Megan Galleandro bl11 am gynrychioli tîm peldroed Gogledd Cymru yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau i Ellis Longworth bl11 am gynrychioli Gorllewin Cymru yn gala nofio Prydain.
Mae amserlen allgyrsiol brysur o weithgareddau ymlaen gan yr adran Addysg Gorfforol bob dydd a rhywbeth at ddant pawb. Anogwn ein disgyblion i ymuno gydag un o'n clybiau a chymryd rhan.

**Miri Medi bl7**

Cynhaliwyd Miri Medi ar nos Iau olaf mis Medi a chyfle arbennig i deuluoedd bl7 ymweld â'r ysgol am de pnawn a chael blas o waith disgyblion bl7 yn ystod eu mis cyntaf yn yr ysgol. Mwynhawyd perfformiad o'r disgyblion i gyd yn cydganu Siant Ysgol Glan Clwyd ynghyd â gwrando ar ddarlleniadau gan ddisgyblion o'u gwaith. Bu sesiwn gwobrwyo hefyd i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion.

**Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd 2022**

Diolch i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Pobi Ysgol Glan Clwyd i ddathlu'r diwrnod. Roedd y beirniaid, y Pennaeth Mrs. Sian Alwen a Mr. Gethin Morgan, Arweinydd Cynnydd bl7, yn hapus iawn gyda'r gystadleuaeth ac yn canmol creadigrwydd a sgiliau coginio y disgyblion. Llongyfarchiadau i'r rhai ddaeth i'r brîg, sef Harriet ac Elsi Bl 7, Hannah Bl 8 a Mared Bl 9. Llongyfarchiadau hefyd i Miss Tesni Jones a enillodd y gystadleuaeth i'r staff. Arbennig!

**Gwyddoniaeth**

Diwrnod Llaeth Ysgol y Byd
Dathlwyd diwrnod llaeth ysgol y byd ar 28/9/22 drwy roi cyflwyniad boreol i ddisgyblion ar fanteision llaeth fel rhan o ddeiet cytbwys. Cafodd blwyddyn 7 y cyfle i wneud hufen iâ yn eu gwersi gwyddoniaeth hefyd.

**Taith Glan Llyn yr adran Wyddoniaeth**

Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol bu criw o flwyddyn 11, sy'n astudio Gwyddoniaeth Triphlyg, ar daith maes am dridiau i Wersyll Glan Llyn.

**Menter**

Mi fydd 15 o ddisgyblion Bl12 yn cymryd rhan ym mhrosiect peirianneg EESW. Pob lwc iddyn nhw wrth gystadlu yn erbyn timau eraill yng Nghymru i ddatrys problemau o ddydd i ddydd gyda chwmni cyswllt lleol. Pob dymuniad iddynt oll!

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

## Newyddion o Lyfrgell Dinbych




**Sialens Ddarllen yr Haf** - Daeth y sialens i ben ganol fis Medi gyda chanran uchel o blant ysgolion yr ardal wedi cwblhau'r sialens drwy ddarllen o leiaf chwech o lyfrau dros fisoedd yr haf a chael tystysgrif a medal i gydnabod eu llwyddiant. Braf gweld y plant yn darllen er mwyn pleser ac yn mwynhau thema'r teclynwyr eleni.



**Bore Coffi Wcrainaidd** - Cynhaliwyd bore coffi arbennig ar 4ydd o Hydref yn Llyfrgell Dinbych i hyrwyddo cynnig ein llyfrgelloedd ar gyfer cefnogi pobl o'r Wcráin. Cawsom gymorth i gynnal y digwyddiad gan wirfoddolwr llyfrgell o'r Wcráin, a fu'n gweini crempogau Wcrainaidd ar gyfer y bore coffi. Cafodd cyfeillion o'r Wcráin a gwesteiwyr gyfle i gymdeithasu, sgwrsio a gweld y llyfrau sydd ar gael yn Wcraineg yn y llyfrgell.

**Dechrau Da** – Dyma drefn y sesiynau i'r babis a'r plant lleiaf ar fore Mercher yn llyfrgell Dinbych

9.30 y.b. sesiwn oedolyn a phlentyn dan dair oed

11.30 y.b. sesiwn oedolyn a phlentyn dan dair oed

1.00 y.p. sesiwn i fabis dan un oed

Wrth i'r niferoedd gynyddu yn ein sesiynau Dechrau Da, rydym wedi penderfynu newid i system archebu ar-lein a fydd yn mynd yn fyw ar gyfer pob sesiwn Dechrau Da ar ôl hanner tymor. Rydym yn gobeithio y bydd yn gwneud archebu yn haws ac yn fwy cyfleus i rieni. Bydd y system yn syml iawn i'w defnyddio a bydd cymorth ar gael os oes angen. Ffoniwch y Llyfrgell am fwy o wybodaeth 01745 816313 neu dilynwch Dechrau Da ar eu tudalen facebook.
https://www.facebook.com/people/Dechrau-Da-Sir-Ddinbych-Denbighshire-Bookstart/100083154347718/

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO**

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

## Digwyddiadau

I gofnodi canrif ers cychwyn y BBC, gwahoddwyd yr Athro Simon Potter o Brifysgol Bryste i gyflwyno darlith arlein i ni yn ddiweddar ar 'Bydd Cenedl yn datgan heddwch wrth Genedl', arwyddair y BBC. Rhoddodd grynodeb i ni o ddarlledu rhyngwladol yn y 1920au a'r 1930au, pan oedd radio yn cael ei weld fel cyfrwng heddwch ar ôl cyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd darlledu yn ffordd o ddod â chenhedloedd at ei gilydd, yn eu galluogi i ddysgu am ddiwylliannau a ffordd o fyw ei gilydd, er enghraifft trwy gerddoriaeth. Yn 1925, sefydlwyd yr Undeb Ddarlledu Rhyngwladol i ddatgan na ddylai darlledu gael ei ddefnyddio ar gyfer propaganda, dim ond ar gyfer cyfnewid syniadau deallusol a diwylliannol. Ond, wrth i lywodraethau eithafol ymddangos yn Ewrop dechreuwyd ei ddefnyddio i hyrwyddo propaganda cenedlaethol, eithafol, a threfnwyd yr ymosodiad ar lywodraeth Awstria trwyddo.
Erbyn 1933 roedd darlledu yn gyfrwng torfol, yn ffordd rad o ddarparu adloniant o safon ar gyfer y werin yn eu cartrefi. Yn 1932 sefydlodd y BBC Wasanaeth yr Ymerodraeth i ddarlledu yn Saesneg i wledydd Saesneg eu hiaith, ac yn 1938 y Gwasanaeth Ewropeaidd i ddarlledu mewn ieithoedd eraill. Bu'n gweithio gyda Chynghrair y Cenhedloedd i hybu heddwch ar draws y byd, cyn i hwnnw ddatblygu i fod yn Genhedloedd Unedig.



Radio o'r 1930au - Radio Ferranti 'Mowld-Jeli' o 1937. Roedd ganddo donfedd hir, canolig a byr oedd yn ei alluogi i dderbyn gorsafoedd lleol yn ogystal â rhai rhyngwladol.

### Rhodd ddiweddar

Dyma Antena Dolen Teledu o'r 1950au, mewn siâp gwahanol i'r siâp llorweddol neu fertigol arferol. Roedd yn medru derbyn y BBC o Sutton Coldfield yn unig, gan ddefnyddio'r hen linell 405. Roedd yn gweithio yn dda mewn ardaloedd oedd yn agos i'r trosglwyddydd, er nad oedd yn sensitif iawn, a doedd o ddim yn dioddef o ymyriant trydanol nac o'r broblem a achoswyd gan adlewyrchiadau oddi wrth wrthrychau neu bobl yn yr ystafell.



### Darlledu rhyngwladol

Mae gan yr Amgueddfa nifer o radios a gynhyrchwyd dramor. Byddai'r un isod a gynhyrchwyd gan LiRar (Les Ingéneurs Radio Réunis) o Ffrainc yn y 1950au wedi gweddu i gaffi ym Mharis yn y cyfnod.



Mae gan Radio Ffrengig hanes hir, yn dechrau ar Dachwedd 6ed 1922 gyda sefydlu gorsaf breifat, Radiola, ychydig ddiwrnodau cyn y BBC. Newidiodd Radiola ei enw i Radio Paris yn 1924 ac yn hwyrach dechreuodd mwy o orsafoedd radio ddarlledu. Ar ôl y rhyfel, y wladwriaeth oedd yn rheoli radio Ffrainc, tan i orsafoedd radio masnachol newydd gael yr hawl i ddechrau darlledu yn 1985. Ers hynny, mae llawer wedi newid oherwydd dyfodiad radio digidol – gorffennwyd darlledu ar y donfedd ganolig yn 2015 a diffoddwyd y trosglwyddydd tonfedd hir yn Allouis, a oedd yn darlledu France Inter yng nghanolbarth Ffrainc, ar Ragfyr 31ain, 2016. Dwy orsaf nodedig arall yw Radio Luxembourg oedd yn darlledu mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Ffrangeg, ers 1932, ac Europe Number 1, gorsaf beirat, sy'n dal i ddarlledu yn Ffrangeg o Saarland yn yr Almaen ers 1955.

## Digwyddiadau'r dyfodol

Ar Dachwedd 25, bydd Mike Tayler yn sgwrsio am ei ewythr **Harry Parry (1912-1956)** o Fangor, yn ein darlith arlein nesaf. Roedd Harry Parry yn gerddor ac arweinydd band Jazz, fu'n darlledu ar y radio dros 750 tro yng nghyfnod 1939-1952. Bu'n cyflwyno 'Radio Rhythm club' Radio y BBC yn y 1940au cynnar, a 'Tarry with Parry' ymhlith llawer o raglenni radio eraill. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd cyflwynodd ei 'Radio Rhythm Sextet' ar radio'r Iseldiroedd, Ffrainc a'r Almaen. Ar hyn o bryd, mae Mike Tayler yn ysgrifennu bywgraffiad ei ewythr, "un o feibion enwog Cymru a anghofiwyd gan ei gydwladwyr".




Clawr un o gryno-ddisgiau Harry Parry

Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru.

### Ymweld â'r Amgueddfa

Yn ystod y gaeaf, pan fydd yr Amgueddfa ar gau, bydd yn bosib trefnu apwyntiad i ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg. Cysylltwch â **gwybod@gwefrhebwifrau.cymru**
Croeso cynnes i bawb.

# Ysgol Twm o'r Nant

Gyda thymor y diolchgarwch yn ei anterth braf oedd cael cynnal gwasanaethau yng Nghapel y Fron unwaith eto a chael perfformio wyneb yn wyneb. Roedd y Capel yn orlawn i'r ddau gyfarfod a chafwyd gwledd o ganu a diolch.

Roedd rhaid dweud hwyl am y tro mis hwn i aelod o staff sydd yn mynd ar gyfnod mamolaeth. Pob hwyl i Miss Catrin Davies sydd wedi ein gadael i roi traed i fyny cyn iddi roi genedigaeth. Mae'r plant a'r staff yn edrych ymlaen i glywed y newyddion da a chyffrous pan y daw.




Cynhaliwyd disgo tywyll yn yr ysgol yr wythnos hon i gyd fynd a noson calan gaeaf. Gwelwyd ambell i wrach ac ysbryd yn cyrraedd i ddawnsio a chafwyd noson dda.


**Uned dan 5**

Dyma ni ar drothwy diwedd ein hanner tymor cyntaf yn yr Uned Dan 5 mae'r disgyblion wedi setlo yn fendigedig. Da iawn chi blantos!

Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu emynau at ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel y Fron. Hyfryd fydd cael perfformio i'n rhieni wythnos nesaf.








Cawsom 'Hwyl yr Hydref' wrth greu patrymau gyda deunyddiau naturiol , a chyfatebu llythrennau ar y bwmpen.





Rydym wedi bod yn dysgu am y corff a bwydydd sydd yn iach i ni. Aethom ati i greu cebab ffrwythau blasus. Roedd pawb yn awyddus i roi cynnig ar fwydydd newydd, gyda melon ddŵr yn amlwg yn ffefryn. Ardderchog !



**Uned Dan 7** -Mae disgyblion yr Uned Dan 7 wedi bod yn brysur gyda'r thema "Gyda'n Gilydd' yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Rydym wedi mwynhau cyd-weithio a dysgu am ein teimladau ac emosiynau gwahanol. Bu'r plant yn dangos eu caredigrwydd drwy greu cardiau clên i'w cyfoedion. Daeth Spectrum Cymru i'r Uned i gynnal sesiynau diddorol am bwysigrwydd trin pawb yn gyfartal a Stereoteipio.











**Uned dan 9**—Mae'r plant wedi bod yn brysur yn coginio yn yr uned gyda phob un wedi creu crymbl ffrwythau i fynd adref gyda nhw. Cafwyd llwythi o afalau ac roedd yr uned fel ffatri gyda arogl afalau yn llenwi y cynteddi. Gwelwyd y plant yn plicio a stiwio afalau ac ambell un yn mwynhau'r profiad o olchi llestri a chlirio ar eu holau.











Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu caneuon ar gyfer ein gwasanaeth diolchgarwch. Braf oedd cael dysgu emynau newydd ond y ffefryn eleni gan yr uned oedd y gân yr oeddem yn canu am gasglu concyrs!

Cafodd blwyddyn 4 ymweliad gan PC Gareth, a dysgodd y plant am bwy sy'n ffrind diogel ar y we. Gwrandawodd y plant yn astud ac roeddent wedi mwynhau yng nghwmni yr heddwas.



Llongyfarchiaadu mawr i ddau o'r uned sydd wedi cyflawni rhedeg 6 mynydd yng ngogledd Cymru dros y misoedd diwethaf. Mae'r ddau wedi dod yn 2il yn eu categori. Ifan yw'r 2il fachgen cyflymaf yn y gystadleuaeth a Saoirse yw'r 2il ferch cyflymaf yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp a da iawn chi! Diolch am rannu eich profiadau gyda ni yn yr uned gan obeithio ysgogi mwy i redeg yn y dyfodol.



I ddod â'n thema coedwigoedd gwyllt i derfyn rydym yn gobeithio cael mynd am dro I goedwig ger castell Dinbych yn ystod yr wythnos olaf a chael mwynhau gweld y coed a'r byd natur yr ydym wedi dysgu llawer amdanynt yn ystod yr hanner tymor hwn. Croesi bysedd bydd hi ddim yn bwrw glaw a bydd yr haul yn tywynnu dros Ddyffryn Clwyd.



Mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio yn galed eleni ym mhob maes, yn enwedig gyda chwaraeon. Mae tîm yr ysgol wedi bod yn cael llawer o gemau cyfeillgar yn erbyn Frongoch, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn sawl gêm. Ond mae'r llwyddiant y tro hun yn mynd i dîm pêl-rwyd merched yr ysgol a ddaeth yn fuddugol yn Nhwrnament yr Urdd a byddant yn mynd ymlaen i'r cam nesaf yn Aberystwyth! Llongyfarchiadau i'r ddau dîm.



**Uned dan 11** -Yn dilyn ein taith at fusnesau Dinbych, roedd y disgyblion yn fwy na hapus yn cael mynd i Laethdy Llwyn Banc er mwyn cael blasu ysgytlaeth blasus iawn. Cawson y cyfle i weld y peiriannau, y parlwr godro ac roedd rhai hyd yn oed yn godro buwch!! (Un plastig)




Am hanner tymor prysur rydym wedi'i gael yma yn Uned dan 11. Lle i gychwyn?
Yn gyntaf hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Emyr Evans am fynd â ni o gwmpas eu buarth i gael gweld y peiriannau mawr, ac am sôn am hanes y cwmni er mwyn i ni gael gwybod mwy am hanes busnesau Dinbych. Oeddech chi'n gwybod bod tractor yn costio mwy na thŷ?



*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH


Siop lleol yn gwerthu cardiau,
anrhegion a phethau vintage

DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33




## Glyn Evans Autoclinic Ltd

Atgyweirio ceir ~ Accident repairs



ata
CARS QA
IMI Institute of the Motor Industry

Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA
Tel : (01745) 815141 repairs@evansautoclinic.com

sir ddinbych denbighshire County Council

Yn gweithio i
**gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau,** drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych

01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

## Cynghorwyr Sir Ddinbych
## Eich Cynghorwyr Plaid Cymru



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle
wê y Cyngor Sir

gwasg.com PRINT

**ARGRAFFU**

DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Popty Pwd

Cacennau a chynnyrch blasus wedi'u gwneud â llaw yn Nyffryn Clwyd.

Cadi Dafydd ydw i. Rydw i'n byw yn Nyffryn Clwyd ac yn berchen ar fusnes Popty Pwd, lle rydw i'n gwerthu cacennau a chynnyrch blasus wedi'u gwneud a llaw yn Nyffryn Clwyd. Yn wreiddiol rydw i'n dod o Gyffylliog, ond rydw i wedi codi pac a symud i Lanfair DC… sydd ddim yn bell o gwbl. Rydw i'n gweithio'n llawn amser fel cyfieithydd, ond fy ngwir ddiddordeb yw pobi. Ers yn ifanc iawn rydw i wedi bod â diddordeb mawr mewn coginio a phobi. Dechreuais bobi gyda mam yn y gegin, ond buan iawn roeddwn i wedi diflasu ar wneud cacennau bach gydag eisin dŵr a fferen fach 'doly mixture' i addurno. Dechreuais wylio'r 'Bakeoff' a rhaglenni fel 'Cupcake Wars' a dyna ni – roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau bywyd fel hynny. Rydw i hyd yn oed yn gwneud fy nghacennau pen-blwydd fy hun – 'the baker bakes for everyone, but who bakes for the baker' fel y maen nhw'n dweud.

Rydw i'n un o bedwar o blant ac yn mwynhau cymryd bob cyfle i bobi ar gyfer fy nheulu – maen nhw'n mwynhau hynny hefyd, yn enwedig pan maen nhw'n cael croissants ffres bore Nadolig. Rydw i'n sicr wedi pesgi fy nheulu dros y blynyddoedd.

Felly ym mis Awst dechreuais werthu fy nghynnyrch ac ers hynny rydw i wedi cael ymateb gwych, ac mi fyddaf mewn sawl marchnad dros y misoedd nesaf. Rydw i'n gwerthu pob math o bethau gwahanol gan gynnwys cacennau yn ôl y sleis, cookies, brownies,




cupcakes ac ati. Rydw i wrth fy modd yn pobi ac yn arbrofi gyda gwahanol ryseitiau, felly gellwch fod yn sicr na fyddwch chi'n cael cynnyrch tebyg yn unman arall. Creu ryseitiau ydi fy hoff beth, does dim teimlad gwell na llwyddo i greu rysáit da a chreu rhywbeth hollol flasus ac unigryw.

Mae wedi bod yn ddiddorol… pobi a gweithio'n llawn amser. Rydw i'n gweithio ar fy ngorau o dan bwysau felly mae bod yn brysur o hyd yn fantais i mi i raddau. Fy hoff ffordd o werthu cynnyrch yw gwerthu mewn marchnadoedd. Ydi, mae'n cymryd llwyth o egni ac amser paratoi, ond mae'r holl waith caled yn talu ar ei ganfed yn y diwedd. Mae'n braf cael mynd i ardaloedd gwahanol a chyfarfod â phobl newydd a sgwrsio am fwyd. Er fy mod i'n rhedeg o amgylch y lle fel het am ddiwrnodau cyn y farchnad, mae hynny'n rhan fawr o'r hwyl!

Gyda'r Nadolig ar y gorwel, mae gen i fis prysur iawn o fy mlaen, rydw i'n edrych ymlaen yn arw at gael coginio ryseitiau Nadoligaidd, gan gynnwys pei Nadoligaidd arbennig. Mi fyddaf draw ym marchnad Nadolig Llanbenwch ar 27 Tachwedd gan gynnwys digwyddiadau eraill yn ystod y mis. Felly dewch draw i ddweud helo ac yn fwy na dim i flasu cynnyrch sydd wedi'i wneud gyda llaw yn fy nghegin fach yn Llanfair Dyffryn Clwyd. Mae rhywbeth blasus at ddant pawb yma yn Popty Pwd.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth neu i weld y newyddion diweddaraf



gan Popty Pwd, dilynwch fi ar Facebook: Popty Pwd neu Instagram: popty.pwd.

**Bara Mecsicanaidd i Rannu… neu ddim!**

Yn aml iawn mae gan bobl ofn gwneud bara - ond peidiwch â phoeni! Dyma rysáit hawdd a blasus tu hwnt!

**Cynhwysion**

Ar gyfer y toes

500g o flawd plaen cryf

7g o furum sych

2 llwy de o siwgr mân euraidd

100g o fenyn wedi'i doddi

Ar gyfer y llenwad

Potyn o salsa o'ch dewis chi

Jar o Jalapenos

Pecyn o Mozzarella caled e.e. Pizza Mozerella

Melynwy ar gyfer brwsio'r toes

**Dull**

Cam 1

Rhowch y blawd mewn powlen fawr. Ychwanegwch y burum a'r siwgr i un ochr i'r bowlen ac 1 llwy de o halen mân i'r llall. Cymysgwch gyda'i gilydd, yna ychwanegwch y menyn wedi'i doddi a 275ml o ddŵr cynnes. Cymysgwch nes bod y gymysgedd yn troi'n does, yna tylinwch am 10 munud â llaw nes bod y toes yn feddal ac yn ymestyn yn dda. Rhowch ychydig o olew yn y fowlen a rhowch y toes ynddo. Gorchuddiwch â cling film neu liain sychu llestri a'i neilltuo yn rhywle cynnes nes bod y toes wedi dyblu mewn maint.

Cam 2

Rhowch ddarn o bapur pobi ar eich tin. Torrwch y mozzarella yn 30 darn - tua'r un maint â darn punt. Rhowch y toes ar eich arwyneb gwaith a gwasgwch er mwyn cael gwared ar y swigod aer. Torrwch lympiau o does i ffwrdd, gan sicrhau bod pob un tua'r un maint yn fras - bydd angen 30 darn arnoch chi. (os ydych chi am fod yn fanwl gywir, pwyswch y toes, rhannwch y pwysau â 30, yna pwyswch bob pelen o does wrth i chi eu torri i ffwrdd).

Cam 3

Siapiwch bob darn o does yn ddisg a rhowch bêl o mozzarella yn y canol. Rhowch un jhalapeno ym mhob un hefyd, Tynnwch ochrau'r toes i fyny i amgáu'r caws, gan binsio'r toes at ei gilydd i'w selio. Rholiwch i mewn i bêl a'i rhoi ar y daflen pobi, wedi'i selio ochr i lawr, mewn cylch, gadewch dwll yn y canol sydd yr un maint â'r fowlen rydych chi am roi'r salsa ynddo. ** Syniad da - defnyddiwch bowlen sy'n ddiogel ar gyfer y popty - gadewch y bowlen yn y twll fel bod y toes ddim yn tyfu ac yn cau'r twll. Gosodwch ddarn o cling ffilm olewog ar y toes a rhowch mewn lle cynnes am 30 munud.

Cynheswch y popty i 200C/180C fan/nwy 6.

Cam 4

Tynnwch y cling film oddi ar y toes a brwsiwch y melynwy ar y toes. Rhowch yn y popty am 20-25 munud nes iddo fod yn euraidd. Gadewch i oeri am ryw 5 munud. Rhowch y salsa yn y bowlen a mwynhewch!!

# Taith Efeillio Dinbych - Biebertal Mis Medi 2022

O'r diwedd, ar ôl saib oherwydd Covid ag ati, daeth y cyfle nôl yn mis Medi i aelodau o Gymdeithas Efeillio Dinbych ymweld â'n cyfeilldref Biebertal yn yr Almaen unwaith eto. Cychwyn yn foreol am saith a chael siwrne hwylus i Fanceinion (ond O!! am strach oedd mynd drwy'r mesurau diogelwch !!)

Dim ond 17 ohonom y tro hwn. Braf oedd gweld y ddwy Petra yn ein croesawu yn Frankfurt, cael ein cludo i Biebertal mewn dau fws mini o eiddo'r Frigad Dân.

Mae'r croeso yn Neuadd y Gymuned bob tro yn rhyfeddol, a digonedd o goffi a Kuchen tra'n cyfarch ein cyfeillion unwaith eto.

Fe aeth yr wythnos wych heibio'n sydyn iawn gan fod rhaglen ddifyr ac amrywiol wedi ei pharatoi ar ein cyfer.

Lle dymunol a difyr yw'r dyffryn a digon o lwybrau i gerdded a beico. Mae Giessen a Wetzlar yn drefi diddorol gerllaw ac yno mae Pencadlys y cwmni camerau byd enwog LEICA, gydag amgueddfa ddiddorol yn dangos twf a datblygiad eu cynnyrch drudfawr.

Diwrnod gwerthchweil yn Frankfurt; cael ein tywys o gwmpas yr hen ddinas ac yna dwy awr o "fordaith" ar yr afon Main. Ymwelwyd â Hessenpark, hefyd teithio i gyrion Marburg i Amgueddfa agored Oes yr Haearn a chael taith gerdded trawsgwlad i Amgueddfa Heuchelheim (hen orsaf rheilffordd oedd yn bwysig yn ystod yr Ail Ryfel Byd).

Nosweithiau difyr yn gwledda (y bwyd yn arbennig o flasus) gan gynnwys noson caws a gwin yn yr awyr agored ac ambell i gân hefo Peter Davies a John Price, ac ymdrech gan y criw i ganu "Yma o Hyd"!

Buom yn ffodus o dywydd da drwy'r wythnos ond roedd y glaw trwm ar fore'r ymadael yn adlewyrchiad o'r ffarwelio dagreuol.

Mae ein cyfeillion o Biebertal yn bwriadu ymweld â Dinbych ddechrau Gorffennaf 2023 a braf fyddai cael gwaed newydd i ymaelodi er mwyn eu croesawu!

Dewch - cysylltwch ag Enys Davies
Ebost : enyscaer-wydr@hotmail.com










**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew

e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB M<sup></sup>Hale Massey Ferguson Fendt Pöttinger


## Atebion HYDREF 2022

**Ar Draws :**
9. Efelychiad
10. Albee
11. Y Bala
12. Tirluniol
13. Is-lywydd
14. Branwen
16. Neuadd
18. Gwn
19. Englyn
21. Brithdir
22. Belfast
24. Agoriadol
26. Daear
27. Dwylo
28. Strwythuro

**I Lawr :**
1. Newyddion
2. Gefail
3. Cyfarwyddyd
4. Eistedd
5. Adar y bwn
6. Canu
7. Y Brifwyl
8. Berlin
15. Adeiladwyr
17. Unigolyn
18. Gwrthdyst
20. Naturiol
21. Bragdy
22. Bolero
23. Awenus
25. Isod

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR TACHWEDD 2022



**Ar Draws :**
1. Rhoi awdurdod i greu darn o gelf
6. ..... - y - Coed, yng Nghonwy
9. Rhoi trefn ar rywbeth
10. Marwolaeth
11. Greta ....., actores o Sweden
12. Ennyd byr
14. Nid cryfder
17. Math o galendr
20. Disynnwyr
22. Oddi tan
24. Term o gymeradwyaeth ee mewn opera
25. Yn achosi syndod
26. ..... Street Preachers
27. Deunydd sy'n caniatau llif ee trydan neu wres

**I Lawr :**
1. Mae'n tyfu wrth fynd yn ei blaen (5,4)
2. Llongwr
3. ee Cadeirydd a thrysorydd
4. Blodyn, mynawyd . ...... (1,6)
5. Ddim yn gweld dau safbwynt dadl
6. Ffon arweinydd
7. Nodedig
8. Yn hwn mae plwg trydanol yn ffitio
13. Rhoi'r argraff anghywir
15. Tu hwnt i'r cyffredin
16. Haerllug
18. Rhoi mewn lle amrhiodol
19. Amhersain
20. Llyfr lluniau neu record hir
21. Bywiog
23. ..... Bengoch, nofel am gyfnod Glyndŵr

**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 8

**Wythfed diwrnod o daith Llwybr y Llechi. Cerdded o Gapel Curig i Bethesda**

**Capel Curig i Bethesda**
17.6km, 11.0milltir

**Fflat**

Tybiaf mai rhyw lôn Rufeinig syth, braf oedd y llwybr yma o Gapel Curig at Lyn Ogwen, dro esmwyth a di-lol ond roedd y llwybr o amgylch Llyn Ogwen tua'r argae yn waith caled. Rhaid oedd canolbwyntio ar bob carreg gydag un tro peryg iawn wrth yr argae cyn gweld ehangder Nant Ffrancon....





**Tyret Ail Ryfel Byd, Llyn Ogwen**

Difyr oedd mynd i mewn i hwn ar lannau Llyn Ogwen. Chwerthin braidd a meddwl pam fuase y Germans yn dod yma o bob man. Wedyn meddwl ar y ffordd i lawr Nant Ffrancon: Dambusters! Mae yn siwr fod peryg o chwalu yr argae a boddi y dyffryn, achos dyna ddigwyddodd efo bouncing bomb Barnes Wallace yn yr Almaen.

Dyma dyret a wnaeth ei waith!



**Tyret**

Lle iawn i chwarae rhyfel yw
Ac awyrennau yn y clyw,
Hawdd iawn, iawn dychmygu hyn
Yn y tyret ger y llyn.
Lle i gadw gynnau mawr
Saethu awyrennau i lawr.
Rhai am chwalu'r argae ddŵr
A boddi Dyffryn Ogwen siwr
A rhag bomio'r argae hwn
Amddiffynfa, codi gwn,
Ac er mwyn ennill Rhyfel Byd
Saethu'r awyrennau i gyd,
Eu gadael yn y clogwyn draw
Yno'n rhydu yn y glaw,
Ond dychymyg gwyllt yw hyn
Nad yw'n hanes gwir o'r llyn,
Nid oes rhyfel, nid oes strach,
Dim ond rhyfel, cogio bach.

**Rhan 8 i barhau mis nesaf.**

**Arwel Emlyn**



Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

## Dysgwyr ar Gŵyr gan Rob Evans

Os bydd pethau'n parhau i fynd fel hyn bydd pawb ar Gŵyr yn siarad Cymraeg! Mae grŵp o ddysgwyr wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol yng nghaffi'r Tri Chlogwyn am rai blynyddoedd erbyn hyn ond yn ddiweddar ar ochr ogleddol y penrhyn mae grŵp arall wedi ei sefydlu. Maen nhw'n cyfarfod yn y caffi yng Nghwm Ivy bob bore dydd Iau am 11.00 o dan yr enw 'Shw mae dydd Iau'. Da ynte!

A pheidiwch â meddwl mai rhyw hercian siarad sydd yn mynd ymlaen, o na, maen nhw'n clebran. Dw i'n mynd yno i roi cymorth i'r ddau grŵp a phob hyn a hyn dw i'n stopio i wrando arnyn nhw ac mae fy ysbryd yn codi! Dyma bobl sydd ddim wedi cael eu magu yn yr iaith Gymraeg, maen nhw wedi dewis dysgu, wedi dod trwy'r broses a rŵan maen nhw wrth eu boddau yn siarad yr iaith.

Mae'r ddau le yn boblogaidd iawn efo ymwelwyr am hanner y flwyddyn a'r ymwelwyr yn sylwi ar yr iaith anghyfarwydd maen nhw'n glywed. "Pa iaith dach chi'n siarad?" maen nhw'n gofyn a phan dyn ni'n esbonio mai'r Gymraeg yw hi maen nhw'n llawn diddordeb. Go brin eu bod nhw wedi clywed yr iaith o'r blaen.

Y mwyaf o bobl sydd yn clywed yr iaith yn cael ei siarad go iawn y cryfaf yw hi a phan mae cymaint o bwysau ar ein cymunedau mae hynny'n beth da iawn.

Ac os oes dau grŵp ym mro Gŵyr dyle fod un yn eich ardal chi, felly beth amdani ddysgwyr? Mae grwpiau Gŵyr yn rhoi cyfle i'r rhai sydd ar y gris gyntaf i ymarfer yr iaith maen nhw wedi'i dysgu a hynny mewn amgylchedd naturiol. Maen nhw'n dod i sylweddoli bod nhw'n gallu sgwrsio, ac mae holl batrymau cymhleth yr iaith yn eu pennau nhw wedi'r cwbl. Bob wythnos mae'r hyder yn codi ac yn bendant nid ydyn nhw'n mynd i roi'r gorau i'r ymdrech rŵan.

A ni, y Cymry Cymraeg, dyn ni angen pob un ohonyn nhw er mwyn cryfhau ein cymdeithasau. Ond er mwyn i ni wybod pwy sy'n dysgu rhaid i'r dysgwyr gyfarfod mewn lle agored fel caffi. Wedyn byddech chi'n dod ar eu traws nhw, eisteddwch efo nhw, gofynnwch am eu hanes ac ymunwch yn eu sgyrsiau. Gwnewch ffrindiau efo nhw a helpwch nhw i ddarganfod y drws i'n cymdeithas.

Yr hen filiwn yna? Heb ein mewnbwn ni does dim gobaith i hynny ddigwydd. Mae miloedd yn cofrestru i ddysgu Cymraeg bob blwyddyn, helpwch nhw i ddarganfod hyder a bydd llawer mwy ohonyn nhw yn dal ati tan y diwedd.

Ac os oes rhywun am ddechrau grŵp ac eisiau cyngor cysylltwch â fi - bobwennol@ntlworld.com byddaf yn hapus iawn i'ch helpu.

## Difyrru Darllenwyr Dinbych a'r fro!

Ydych chi yn hoff o adlonni? Beth am yrru unrhyw ddarn o waith creadigol megis darn o farddoniaeth neu ryddiaith er mwyn difyrru darllenwyr Dinbych a'r fro. Gyrrwch eich gwaith i'r e-bost canlynol: gwybod"ybigwn.cymru.

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Neges dathliadau yr haf gan Swyn



**Penblwyddi**
Yn ystod mis Awst wnaethon ni ddathlu Penblwydd fy mhlant sef fy merch Alys-Myfanwy sydd newydd droi yn 5 oed, a'i brawd bach Twm-Jacob sydd newydd droi yn 3. Cawsom ddau barti hwyliog gwerth eu dathlu yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun. Digon o fwyd parti a chwarae meddal i ryddhau egni. Roedd hi'n braf cael partïon mawr i wneud i fyny oherwydd y Cofid. Roedd yn grêt cael teulu a ffrindiau at ei gilydd i ddathlu.



**Carnifal Dinbych 2022**
Cafodd Alys-Myfanwy fod yn Dywysoges yn y carnifal yn Ninbych mis Gorffennaf hefyd, wnaethon ni gael ffrog wen fendigedig morwyn briodas iddi o siop elusen yn Ninbych. Hefyd wnaethon ni addurno fy nghar yn dlws i'r achlysur. Cafodd Alys-Myfanwy Tiara a thaleb o £10 i fynd i'r sinema. Felly rydym ni am fynd yn ystod gwyliau Hanner Tymor Hydref!



**Bedydd Twm-Jacob**
Achlysur arbennig arall i'n teulu ni ym mis Medi oedd bedydd fy mab Twm-Jacob. Cawsom fedydd yn yr 'Eglwys Wyllt', sef y bedydd cyntaf y tu allan yno! Cafodd ei fedyddio yn 3 oed mewn siwt a thei. Roedd o'n bictiwr. Cafodd ei fedyddio yn Eglwys Sant Foddhyd Clocaenog.



**CLWB BOWLIO DINBYCH B** Cefn– Peter, Gorden, Colin, Phil a Glyn Blaen—Sian, Ann, Peter, Joseph, Jo, Enid a Mair






Clwb Bowlio Rhuddlan

Aelodau Dinbych yn canolbwyntio ar eu gêm













